**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 05-01(min)**

## Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 28 Mawrth 2001 |
| **Amser:** | 2.00pm hyd 5.05pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Glyn Davies, Cadeirydd | Canol a Gorllewin Cymru |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Delyth Evans | Canol a Gorllewin Cymru |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Huw Lewis (eitemau 3-5) | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| *Swyddogion* | |
| Huw Brodie (eitem 2) | Adran Amaethyddiaeth |
| Rory O’Sullivan (eitem 2) | Is-adran Polisi Amaethyddol |
| Glyn Perryman | Is-adran Polisi Amaethyddol |
| *Parciau Cenedlaethol* | |
| Iwan Huws | Parc Cenedlaethol Eryri |
| Claire Parsons | Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| *Grwp Leader* | |
| Elwyn Vaughan | CYMAD |
| *Menter Cymuned Cymru* | |
| Angela Pullman | |
| *Y Comisiwn Coedwigaeth* | |
| Simon Hewitt | Prif Gadwriaethwr |
| David Bills | Cyfarwyddwr Cyffredinol |

| | |
|---|---|
| Huw Davies | Swyddog Polisi |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc Pwyllgor |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, cyfnewidiadau a datganiadau o fudd**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan John Griffiths a Peter Rogers. Yr oedd Rosemary Butler yn dirprwyo dros John Griffiths. Datganodd y Cadeirydd fod iddo fudd fel ffermwr.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog** - ARD 05-01(p1)

2.1 Cyflwynodd y Gweinidog yr wybodaeth ddiweddaraf yngl^yn â'r sefyllfa gyda chlwy'r traed a'r genau. Dymunai gofnodi ei gydymdeimlad â'r ffermwyr yr oedd yn rhaid difa'u hanifeiliaid. Yr oedd yn deall y gofid a barwyd gan y ffaith fod y gwaith o ladd yr anifeiliaid yn y Gaerwen y diwrnod blaenorol wedi ei ddal yn ôl o ganlyniad i oedi cyn cael trwydded gan y Bwrdd Ymyriad. Y bwriad yn awr oedd cynyddu nifer yr anifeiliaid a oedd yn cael eu lladd yn y Gaerwen i oddeutu 4,000 y diwrnod. Byddai'r cyrff yn cael eu diheintio, eu cludo i Faes Awyr Mona, eu diheintio drachefn a'u llosgi. Yr oedd gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Sir Môn rai pryderon yngl^yn â defnyddio Maes Awyr Mona i waredu'r cyrff, ond yr oedd sylw wedi ei roi i'r pryderon hyn, ac yr oedd y naill a'r llall bellach yn cytuno mai dyma'r safle gorau a oedd ar gael. Yr oedd llythyr yn cael ei anfon at bobl yr ardal yn egluro pam bod y safle wedi ei ddewis a faint o amser y byddai'r broses yn ei gymryd.

2.2 Yr oedd Llywodraeth y DG wedi gofyn i'r Undeb Ewropeaidd gymeradwyo cynllun brechu fel ffordd o reoli'r clwy yn Cumbria. Pwysleisiodd y Gweinidog fod y sefyllfa yn Cumbria yn llawer gwaeth nag yng Nghymru a'i fod yn dal i ystyried brechu fel dull gweithredu yn niffyg ymdrechion eraill, yn hytrach na dewis arall yn lle'r cwl. Cyngor y milfeddygon oedd ei bod yn cymryd dwy i dair wythnos i'r brechiad fod yn effeithiol a hyd yn oed wedyn nid oedd 100% yn effeithiol. Byddai'n dal yn ofynnol iddynt ladd anifeiliaid a oedd wedi eu brechu yn ddiweddarach rhag colli'r farchnad allforio.

2.3 Yr oedd cyswllt wedi ei brofi gydag adran mamogiaid cwl marchnad y Trallwng ac erbyn hyn yr oedd pob dafad a fu mewn cysylltiad â'r rhain wedi ei holrhain a'i lladd. Nid oedd y cyswllt â'r adran wyn tew yn y farchnad wedi ei brofi. Byddai cyfyngiadau ffurflen D ar ffermydd a oedd yn gysylltiedig â'r adran wyn tew yn dal i fod mewn grym tan y dydd Mercher dilynol (4 Ebrill), a byddai modd eu diddymu wedyn yn amodol ar archwiliad milfeddygol boddhaol.

2.4 Cyhoeddodd y Gweinidog y byddai pob anifail y mae'r clwy'n gallu effeithio arno yn cael ei gwlio ar ffermydd sy'n cydgyffwrdd â ffermydd heintiedig yng ngogledd Powys. Byddai archwiliad manwl yn cael ei wneud ym mhob achos cyn penderfynu a oedd ffermydd yn cydgyffwrdd. Yr oedd asesiad risg yn cael ei wneud er mwyn penderfynu a ddylid cwlio ym mhob achos neu dim ond yn y rhai hynny lle cafodd y clefyd ei gadarnhau er 16 Mawrth. Byddid yn cysylltu dros y ffôn i ddechrau gyda'r holl

ffermydd hynny a allai fod yn rhan o'r cwl, a'r nod oedd gwneud penderfyniad cyn pen 24 awr. Byddai'r cwl yn dechrau y diwrnod canlynol mewn ardaloedd lle'r oedd nifer fawr o achosion wedi eu cadarnhau. Nid oedd modd dweud eto faint o amser y byddai'n ei gymryd i gwblhau'r cwl. Yr oedd gwaith yn mynd rhagddo i chwilio am safle i waredu'r cyrff.

2.5 Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog am ei adroddiad ac ategodd ei sylwadau yngl^yn â brechu. Gofynnodd y Cadeirydd am sylwadau a chwestiynau.

2.6 Codwyd nifer o bwyntiau ynglyn â'r cwl yng ngogledd Powys:

- gofynnwyd i'r Gweinidog sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o'r profiad ym Môn fel bod unrhyw rwystrau a fyddai'n dal y cwl yn ôl yn cael eu diddymu cyn i'r cwl ddechrau. Gofynnwyd iddo hefyd a oedd y safle ar gyfer gwaredu anifeiliaid cwl yng ngogledd Powys oddi mewn i'r ardal heintiedig ai peidio. Dywedodd y Gweinidog y byddai gwybodaeth gyhoeddus ynglyn â'r safle ar gael pan fyddai'r manylion wedi eu cytuno.
- gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd yn bwriadu ysgrifennu at bob cynhyrchwr yng ngogledd Powys y gallai ei anifeiliaid fod yn rhan o'r cwl ar ffermydd a oedd yn cydgyffwrdd er mwyn egluro pam bod angen y cwl. Cadarnhaodd fod hyn yn cael ei wneud a bod llythyrau wedi eu hanfon hefyd at y cynhyrchwyr hynny a oedd â chysylltiadau â marchnad y Trallwng;
- a fyddai bridiau prin neu dda byw pwysig o safbwynt geneteg yn cael eu heithrio o'r cwl ar ffermydd sy'n cydgyffwrdd yng ngogledd Powys? Dywedodd y Gweinidog y byddai achosion o'r fath yn cael eu hystyried yn unigol ond y byddai angen cyfiawnhad cryf iawn dros eu heithrio.

2.7 Yng nghyswllt y cwl ym Môn gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd rhywun wedi cysylltu â'r Weinyddiaeth Amddiffyn i holi yngl^yn â defnyddio'r rhan o Faes Awyr Mona a oedd yn eiddo iddynt hwy yn hytrach na'r rhan a oedd yn eiddo i'r Cyngor ac a oedd yn nes at ffordd fawr yr A5? Dywedodd y Gweinidog fod y Cyngor yn cytuno mai'r safle oedd yr un gorau a oedd ar gael ond nad oedd unrhyw safle'n mynd i fod yn dderbyniol i bawb.

2.8 Codwyd nifer o bwyntiau yn ymwneud â lles a symudiadau i ddibenion lles:

- yr oedd problemau lles anifeiliaid yn dechrau dod i'r wyneb gyda da byw yn cael eu cadw dan do yn agos at achosion sydd wedi eu cadarnhau. Gofynnwyd i'r Gweinidog a ellid difa anifeiliaid yn gynt, yn yr achosion hynny lle'r oedd y da byw i'w cwlio. Dywedodd y Gweinidog mai'r Gwasanaeth Milfeddygol oedd yn gyfrifol am ddifa ac y byddai'r pwynt ynglyn â lles yn cael ei nodi;
- yr oedd problemau'n codi hefyd lle'r oedd ffermwyr eisiau symud defaid tac yn ôl i dir comin neu dir pori ar y cyd a gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd sylw'n cael ei roi i hyn. Dywedodd y Gweinidog fod y risg a oedd yn gysylltiedig â symud defaid tac yn ôl i dir comin neu dir pori ar y cyd yn rhy fawr i ganiatáu symudiadau o'r fath;
- sut y gellid rhoi sylw i faterion yn ymwneud â lles anifeiliaid mewn ardaloedd Ffurflen D lle nad oedd modd cael trwydded gwaredu ar sail lles? Dywedodd y Gweinidog y dylid trafod achosion

unigol gyda’r gwasanaeth milfeddygol;

- yr oedd yr amodau a oedd ynghlwm wrth drwyddedau symud yn golygu bod angen i filfeddyg archwilio pob dafad mewn diadell. Gofynnwyd i’r Gweinidog a fyddai modd gwneud gwerthusiad mwy cyffredinol yn lle hyn. Eglurodd ei bod yn anodd canfod clwy’r traed a’r genau mewn defaid ac o ganlyniad bod angen archwilio pob anifail;
- nid oedd digon o ganolfannau diheintio yng Nghymru ac nid oeddent wedi eu dosbarthu’n gyfartal. A fyddai mwy’n cael eu sefydlu? Dywedodd y Gweinidog fod angen safleoedd newydd ac y dylai unrhyw un a oedd yn dymuno sefydlu un gysylltu â’r Comisiwn Cig a Da Byw gan mai hwy oedd yn gyfrifol amdanynt;
- gofynnwyd i’r Gweinidog a ellid darparu cymorth gyda’r costau diheintio a’r oruchwyliaeth filfeddygol a oedd yn gysylltiedig â symudiadau pell ar sail lles. Dywedodd y Gweinidog mai penderfyniad masnachol ac ymarferol i ffermwyr unigol oedd y costau hyn.

2.9 Codwyd nifer o bwyntiau cyffredinol:

- a oedd gan Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad ddigon o adnoddau staff i ddelio gyda sefyllfa clwy’r traed a’r genau, ac a oedd angen symud staff o ardaloedd eraill? Dywedodd y Gweinidog fod hyn yn fater i’r Ysgrifennydd Parhaol. Talodd deyrnged i staff yr Adran Amaethyddiaeth a’r Swyddfeydd Rhanbarthol am eu gwaith caled;
- gofynnwyd i’r Gweinidog pam bod cyfarwyddyd newydd wedi ei gyhoeddi yn ddiweddar yngl^yn ag iawndal, a oedd stoc a oedd wedi eu lladd yn gymwys i’r premiwm lladd o £30 ac a fyddai’r rheolau newydd yn cael eu cymhwyso’n ôl-weithredol. Eglurodd y Gweinidog fod iawndal cyfradd unffurf wedi ei gyflwyno er mwyn cyflymu’r broses. Gallai ffermwyr ddewis rhwng prisiad a chyfradd unffurf ond yr oedd pa un bynnag a ddewisid yn berthnasol i holl dda byw’r cynhyrchwr hwnnw. Nododd y Pwyllgor fod y gyfradd unffurf yn seiliedig ar bris y farchnad a’i bod yn cynnwys unrhyw bremiwm lladd. Nid oedd y gyfradd unffurf newydd yn ôl-weithredol:
- a oedd protocolau wedi eu sefydlu ar gyfer ymddygiad pobl a oedd yn ymwneud â’r gwaith o ddifa a chlirio, ac a oedd gwasanaethau cynghori ar gael iddynt? Dywedodd y Gweinidog y byddai’n ystyried a oedd angen mwy o gyfarwyddyd. Dylid codi unrhyw bryderon arbennig yngl^yn â glendid gyda’r gwasanaeth milfeddygol. Gallai’r Rhwydwaith Gwybodaeth ynglyn â Straen yng Nghefn Gwlad gynnig cymorth a byddai’n ystyried a ddylid cynnig mwy o gyngor i’r rhai hynny a oedd yn ymwneud â’r gwaith hwn;
- yr oedd ffermwyr yng ngogledd Ceredigion yn teimlo’n rhwystredig gan eu bod wedi eu cynnwys mewn ardal heintiedig. Eglurodd y Gweinidog fod yr ardal wedi ei dynodi’n ardal heintiedig oherwydd rhybuddion Ffurflen D a gyflwynwyd o ganlyniad i gysylltiadau gyda marchnad y Trallwng;
- gofynnwyd i’r Gweinidog am ba hyd y byddai rhybuddion Ffurflen D mewn grym. Dywedodd nad oedd unrhyw reolau pendant. Yr oedd yn dibynnu ar gryfder y firws ac am faint o amser yr oedd wedi bod yn bresennol. Byddai angen rhoi sylw i’r mater o gynaeafu ar dir heintiedig;
- gofynnwyd i’r Gweinidog pa gyngor a oedd wedi ei roi ynglyn ag ailagor llwybrau cyhoeddus. Dywedodd fod cyngor wedi ei roi i awdurdodau lleol yr wythnos flaenorol. Yr oedd cyngor milfeddygol ar gael i awdurdodau lleol a phobl a oedd yn trefnu digwyddiadau. Ychwanegodd y

dylid hysbysu’r awdurdod lleol ar unwaith ynglyn â defaid sy’n crwydro;

- a oedd unrhyw brinder porthiant wedi ei nodi a beth oedd yn cael ei wneud er mwyn edrych ar y mater? Dywedodd y Gweinidog nad oedd unrhyw brinder wedi ei nodi eto ond y byddai sylw’n cael ei roi i faterion o’r fath fel y byddent yn codi;
- gofynnwyd i’r Gweinidog a oedd ymrwymiad Michael Meacher i ymateb i gyfraniadau gwirfoddol ag arian cyfatebol yng nghyswllt llinellau cyngor yn berthnasol yng Nghymru. Cytunodd i ymchwilio i’r pwynt hwn;
- yr oedd angen gwneud rhywbeth i ddiogelu’r farchnad ar gyfer cig oen Cymreig a gofynnwyd i’r Gweinidog beth oedd yn cael ei wneud. Dywedodd fod gan Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru ymgyrch farchnata gref ar y gweill ar gyfer yr haf.

2.10 Cytunodd y Cadeirydd i ystyried â chydymdeimlad gais y dylai’r Pwyllgor gyfarfod yn ystod y Pasg pe bai angen a thrafod y mater gydag aelodau’r pwyllgor a’r Llywydd.

2.11 Codwyd pwnc Gorchymyn Rhanbarth Pysgodfeydd Môr De Cymru (Amrywiad) 2001. Eglurodd y Clerc fod y Gorchymyn wedi ei ystyried yn barod gan y Pwyllgor Busnes a’r Dirprwy Lywydd. Yr oedd y Dirprwy Lywydd wedi penderfynu na ddylai gael ei gyfeirio i bwyllgor pwnc. O ganlyniad, yr oedd wedi ei ystyried yn barod gan y Pwyllgor Deddfwriaeth a byddai’n cael ei drafod yn y cyfarfod llawn drannoeth.

2.12 Teimlai’r aelodau fod y Gorchymyn yn codi materion a oedd yn ymwneud â’r broses o’u hysbysu yngl^yn ag is-ddeddfwriaethau a fyddai’n dod gerbron. Gofynnwyd felly i’r Gweinidog gynnwys manylion ynglyn â deddfwriaeth a fyddai’n dod ger eu bron yn ei adroddiad i’r Pwyllgor yn y dyfodol. Cytunodd y Gweinidog i wneud hyn ond ychwanegodd na fyddai modd cynnwys deddfwriaeth a oedd yn ddarostyngedig i drefniadau brys.

2.13 Croesawyd y cynnydd a wnaethpwyd gyda thaliadau dan y cynllun Tir Mynydd a’r Premiwm Buchod Sugno. Oherwydd y pwysau ar ffermwyr yn sgîl argyfwng clwy’r traed a’r genau, awgrymwyd y dylid gohirio ystyried ffurflenni IACS. Nododd y pwyllgor ei bod yn bwysig peidio ag oedi gyda’r amserlen bresennol rhag colli’r gwelliannau a wnaethpwyd yn ystod y blynyddoedd diweddar. Byddid yn dangos cydymdeimlad mewn achosion unigol lle’r oedd anawsterau’n codi oherwydd problemau mynediad yn sgîl clwy’r traed a’r genau.

Pwyntiau gweithredu

2.14 Darparu nodyn ynglyn â maint y cwl rhagataliol yng ngogledd Powys – **Gweinidog** (Is-adran Polisi Amaethyddol)

2.15 Darparu nodyn yn egluro a oedd arian cyfatebol ar gael ar gyfer llinellau cynghori – **Gweinidog** (Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio)

2.16 Darparu eglurhad ysgrifenedig o’r trefniadau ar gyfer trosglwyddo o Leader II i Leader+. (Ceir copi

o'r llythyr a ddarparwyd yn atodiad 1). - **Gweinidog** (Is-adran Polisi Gwledig)

**Eitem 3: Adolygiad Arallgyfeirio** - ARD 05-01(p2); ARD 05-01(p3); ARD 05-01(p4)

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Iwan Huws, Claire Parsons, Elwyn Vaughan ac Angela Pullman i’r cyfarfod.

3.2 Cyflwynodd Iwan Huws y papur gan y Parciau Cenedlaethol ac eglurodd Claire Parsons gefndir rhai o’r enghreifftiau penodol o ddatblygu cymunedol. Dywedodd Iwan Huws y byddai’r Parciau Cenedlaethol, pan fyddai clwy’r traed a’r genau dan reolaeth, yn cyflwyno cynnig yn gofyn i’r Gweinidog fwrw ’mlaen ar fyrder â chynlluniau amaeth-amgylchedd ar ffermydd lle’r oedd da byw wedi eu difa.

3.3 Cyflwynodd Elwyn Vaughan y papur gan CYMAD ac Angela Pullman y papur gan Fenter Cymuned Cymru. Yna gofynnodd y Cadeirydd am gwestiynau a sylwadau a chodwyd y pwyntiau a ganlyn.

3.4 Gofynnwyd i Fenter Cymuned Cymru beth oedd ei pherthynas gyda chynghorau sir, yr Awdurdod Datblygu ac asiantaethau menter eraill a sut yr oedd gweithgareddau’r gwahanol sefydliadau’n cael eu cyd-drefnu? A oedd cystadleuaeth rhwng yr asiantaethau ac a oedd y gwaith o gynnig cyngor busnes yn cael ei ddyblygu?

- Dywedodd Angela Pullman nad oedd yr asiantaethau mawr yn aml yn gweld potensial entrepreneuriaid nad oedd yn dilyn y disgwyliadau arferol. Golygai hyn yn aml bod syniadau da yn cael eu hanwybyddu ac yr oedd angen diddymu’r rhwystrau hyn. Ni ellid cwrdd â’r galw am gyngor busnes felly nid oedd cystadleuaeth yn bodoli. Yr oedd Menter Cymuned Cymru’n gweld ei hun fel rhan o gontinwwm gyda darparwyr eraill. Yr oedd yr Awdurdod Datblygu a Chyswllt Busnes yn darparu cyngor i fusnesau mawr tra’r oedd eraill yn mynd at yr asiantaethau menter neu Fenter Cymuned Cymru. Yr oedd yn bwysig nodi’n glir wrth ddarpar glientau pa asiantaethau oedd yn darparu pa gyngor, beth oedd am ddim, beth yr oedd angen talu amdano a sut i gael cyngor.

3.5 Sut y gellid annog y syniad o weithio’n effeithiol mewn partneriaeth?

- Dywedodd Elwyn Vaughan fod hyn yn cymryd amser. Cyfeiriodd at lwyddiant Bîff Llyn fel enghraifft a oedd yn cael ei hefelychu erbyn hyn. Yr oedd yn bwysig cysylltu â sefydliadau cynrychioladol a sicrhau bod y rhai hynny sy’n helpu i ddatblygu mentrau cydweithredol yn deall yn iawn beth yw anghenion cefn gwlad.

3.6 Yr oedd gan awdurdodau lleol gryn botensial o safbwynt cael gafael ar adnoddau. Sut y gellid datblygu hyn drwy strategaethau cymunedol er budd yr economi wledig?:

- Dywedodd Iwan Huws ei bod wedi bod yn ddyletswydd ar barciau cenedlaethol i ofalu am les

economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol er 1995. Yr oedd y rôl hon yn un newydd i awdurdodau lleol a byddai'r Parciau'n gweithio gyda hwy er mwyn datblygu eu strategaethau datblygu cymunedau.
- Dywedodd Angela Pullman ei bod wedi trafod datblygu strategaethau cymunedol gydag awdurdodau lleol a'i bod yn teimlo y byddent yn croesawu cyfarwyddyd.

3.7 Beth oedd ystyr y "toolkit approach" y cyfeirid ato ym mhapur Menter Cymuned Cymru?

- Eglurodd Angela Pullman fod hyn yn golygu rhoi i bobl leol y sgiliau sydd eu hangen arnynt er mwyn datblygu eu hatebion eu hunain.

3.8 Sut y gellid gwella'r broses o gael brandiau sy'n seiliedig ar y Parciau Cenedlaethol?

- Dywedodd Iwan Huws fod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r Gyfarwyddiaeth Bwyd-Amaeth ynglyn â sut y gellid datblygu rôl Parc Cenedlaethol Eryri. Yr oedd y Parc eisoes yn ymdrin â materion cynllunio ac yn gweithredu'r cynllun Tir Gofal yn ei ardal ar ran Cyngor Cefn Gwlad Cymru, ac yr oedd ychwanegu materion bwyd-amaeth at ei bortffolio yn gwneud synnwyr. Yr oedd yr 11 parc cenedlaethol ym Mhrydain wedi trefnu ffair fwyd yn San Steffan ac yr oedd yn rhaid datblygu gweithgareddau o'r fath.
- Dywedodd Elwyn Vaughan mai Eryri o bosibl oedd y ddelwedd labelu gryfaf yng Nghymru ac y dylid manteisio ar hynny.

3.9 Yr oedd cyfleusterau gofal plant yn hanfodol a chafwyd cyhoeddiad y byddai Chwarae Teg yn cael mwy o arian, ond beth arall yr oedd angen ei wneud?

- Dywedodd Angela Pullman fod darpariaeth mewn ardaloedd gwledig yn aml yn ddrud, a theimlai fod angen rhaglen genedlaethol er mwyn creu rhwydwaith o fusnesau cymdeithasol a rhaglenni hyfforddi.

3.10 Yr oedd y Parciau wedi nodi bod deddfwriaeth yn llesteirio'r gwaith o annog pobl i brynu'n lleol. Gofynnwyd am eglurhad.

- Dywedodd Claire Parsons fod hyn yn cyfeirio at y ffaith ei bod yn aml yn fwy costus i werthu cynnyrch yn lleol nag i ddod â chynnyrch i mewn o'r tu allan i'r ardal.

3.11 Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr am eu cyfraniadau.

**Eitem 4: Strategaeth Coetir Cymru** - ARD 05-01(p5)

4.1 Croesawodd y Cadeirydd David Bills, Simon Hewitt a Huw Davies i'r cyfarfod.

4.2 Cyflwynodd David Bills y Strategaeth. Dywedodd fod pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol yng

nghyswllt coedwigaeth yng Nghymru wedi eu trosglwyddo i'r Cynulliad er bod dadl ynglyn â chyllid wedi golygu oedi cyn sicrhau cytundeb rhwng y Trysorlys a'r Cynulliad ynglyn ag arian ar gyfer y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru. Yr oedd Strategaeth Coetir Cymru'n darparu'r cyfeiriad a'r polisi ar gyfer rheoli coetiroedd yng Nghymru ac yr oedd wedi ei datblygu yng Nghymru ar gyfer Cymru. Yr oedd y Comisiwn Coedwigaeth yn frwdfrydig iawn ynglyn â'r Strategaeth a byddai'n neilltuo adnoddau canolog i'w chefnogi.

4.3 Yn dilyn ymgynghori helaeth â'r cyhoedd ac o ganlyniad i sylwadau a wnaethpwyd gan y Pwyllgor yn Rhagfyr, cynigwyd lansio'r Strategaeth ym Mehefin ar yr amod bod y mater o ariannu'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru wedi ei ddatrys a chan ddibynnu ar y sefyllfa gyda chlwy'r traed a'r genau. Byddai'r gwaith o weithredu'r strategaeth yn cael ei lywio gan y Fforwm Coetiroedd, dan gadeiryddiaeth y Gweinidog. Bwriedid cyhoeddi cynlluniau gweithredu wedi eu hariannu yn y lansiad – cynlluniau a luniwyd er mwyn darparu rhai o raglenni'r Strategaeth.

4.4 Croesawodd y Cadeirydd y Strategaeth ac ymroddiad y Comisiwn Coedwigaeth iddi. Gofynnodd am gwestiynau a sylwadau a chodwyd y pwyntiau a ganlyn:

- yn sgîl y cwymp ym mhris coed a oedd llawer o fuddsoddi a gwaith yn cael ei wneud yng nghyswllt nwydd na fyddai ganddo unrhyw werth? Dywedodd David Bills mai'r prif ffactor a oedd yn gyfrifol am gwymp prisiau coed oedd cryfder y bunt. Byddai'r Strategaeth yn cynnig manteision pwysig eraill, yn enwedig o safbwynt cymdeithasol a diwylliannol;
- cyfeiriwyd at y cynllun peilot i ymgynghori â'r cyhoedd yng Nghwm Ystwyth. Gofynnwyd i'r Comisiwn Coedwigaeth a oedd y cynllun ym Mrechfa hefyd yn gynllun peilot. Dywedodd Simon Hewitt nad oedd cyfeiriad penodol at y prosiect ym Mrechfa yn y Strategaeth, ond y câi ei gynnwys yn y Cynllun Gweithredu ac y byddai'n darparu gwybodaeth werthfawr. Yr oedd yn ardal lawer llai na Chwm Ystwyth ond yr oedd llawer o waith wedi ei wneud yno;
- nid oedd llawer yn y Strategaeth ynglyn ag effeithiau posibl newidiadau yn yr hinsawdd felly a oedd yn briodol mabwysiadu strategaeth a oedd yn ymwneud â 50 mlynedd? Yn wyneb newidiadau yn yr hinsawdd a oedd y cyfuniad cywir o rywogaethau'n cael eu plannu? Dywedodd Simon Hewitt fod y Comisiwn Coedwigaeth wedi gwario £11 miliwn y flwyddyn ar ymchwil a oedd yn cynnwys gwaith yn ymwneud ag effaith newidiadau yn yr hinsawdd, cyfuno rhywogaethau ac ansawdd dwr. Byddai cyfuniad priodol o rywogaethau yn gwella bio-amrywiaeth ac yn gallu gwrthsefyll newidiadau yn yr hinsawdd yn well. Byddai'r Strategaeth hefyd yn cael ei hadolygu'n gyson;
- beth oedd y sefyllfa ddiweddaraf ynglyn â throsglwyddo arian ar gyfer y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru i'r Cynulliad? Dywedodd David Bills fod trafodaethau rhwng y Cynulliad a Gweinidogion y Trysorlys yn mynd rhagddynt;
- beth oedd gorchudd di-dor yn ei olygu a pham bod 50% wedi ei ddewis fel y targed ar gyfer faint o goetiroedd sydd i'w rheoli dan y system? Eglurodd David Bills fod gorchudd di-dor yn ddewis arall yn lle torri'n gyfan gwbl a'i fod yn cynnig manteision amgylcheddol. Yr oedd dulliau amrywiol o weithredu gorchudd di-dor yn bosibl yng Nghymru ac, o ystyried profiad ac amgylchiadau Cymru, yr oedd 50% yn darged rhesymol yn y cyfnod dechreuol hwn;
- a fyddai'r Comisiwn Coedwigaeth yn chwarae rhan ragweithiol yn y gwaith o annog pobl i droi

at ynni adnewyddadwy? Dywedodd Simon Hewitt mai’r unig beth y gallai’r Comisiwn Coedwigaeth ei wneud oedd annog y sector drwy ddarparu gwybodaeth ar yr adnoddau tebygol y gellid eu tyfu yn y wlad hon a chysylltiadau â phrosiectau eraill ledled y DU. Roedd y Comisiwn Coedwigaeth yn gweithio mewn cysylltiad agos â’r Awdurdod Datblygu yng nghyswllt cymorth busnes ac arian Amcan 1 er mwyn datblygu dull gweithredu rhagweithiol;

- i ba raddau yr oedd Strategaeth Datblygu Economaidd y Cynulliad Cenedlaethol a’i bolisïau ar ddatblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal a materion eraill a oedd yn croesi ffiniau wedi eu hystyried wrth ddatblygu’r Strategaeth? Dywedodd Simon Hewitt fod y Strategaeth wedi ei datblygu gan weithgor a oedd yn cynnwys yr Awdurdod Datblygu, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, awdurdodau lleol, Asiantaeth yr Amgylchedd, yr Asiantaeth Ffermio a Chadwraeth Cefn Gwlad, CADW ac Adran Amaethyddiaeth ac Adran Amgylchedd y Cynulliad, ynghyd â chynrychiolwyr o’r sector amgylcheddol gwirfoddol a’r diwydiant coedwigaeth. Roedd eisoes gysylltiad cryf rhwng y Strategaeth Coetir a Chynllun Datblygu Cynaliadwy y Cynulliad Cenedlaethol.

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr y Comisiwn Coedwigaeth am eu cyfraniad.

**Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod blaenorol** - ARD 04-01(min)
Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth.

**Ysgrifenyddiaeth** **Mawrth 2001**

---

**Atodiad 1**

Nid yw'r cyfieithiad Cymraeg ar gael ar hyn o bryd.

**Minister for Rural Affairs**
**Gweinidog dros Faterion Gwledig**

Our ref: SF/01/3226

Glyn Davies AM
Chair Agriculture and Rural Development Committee
The National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

14 June 2001

**ARD COMMITTEE REQUEST FOR INFORMATION ON LEADER TRANSITIONAL FUNDING ARD 05-01**

An action point arising from the ARD Committee meeting on 28 March was that I should provide a written explanation of the transition arrangements between the LEADER II and LEADER + Programmes (Committee Minutes paragraph 2.16 refers).

Arrangements have been made to ensure a smooth transition from the old scheme to the new. This includes transitional funding for existing LEADER II groups to enable them to keep members of staff in post and to cover basic administrative costs between the end of the old scheme (31 March 2001) and the approval of the new Local Action Groups (expected by the end of July). Therefore funding is available to cover the entire transition period 1 April to 31 July 2001.

Following an assessment of need £150,000 has been set aside for this purpose. The Welsh European Funding Office (WEFO) is handling the application and payment processes for this money. WEFO is currently processing transitional funding applications that have been received from 7 of the 8 LEADER II Local Action Groups and they aim to make the payments before the end of June.

I trust that the above provides the necessary information.

Yours sincerely

**Carwyn Jones AM**